# ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

| Teitl y cynnig: | Achosion addasrwydd i ymarfer: pwerau i estyn gorchmynion interim |
|---|---|

## 1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Bydd y cynigion a gynhwysir yn y rheoliadau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar wasanaethau plant, gan y byddant yn gymwys i'r rhai sy'n gweithio yn y sector. Mae rheolwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau cartrefi gofal sydd yn bennaf neu'n gyfan gwbl i blant yn destun gofyniad i gofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu, sef GCC; a bydd y cynigion hyn yn cael effaith ar y rhai sy'n eu cael eu hunain yn destun gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer. Er y bydd effaith uniongyrchol, rydym yn fodlon y bydd effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar y grŵp hwn, gan y bydd y cynigion ar gyfer y prosesau addasrwydd i ymarfer yn gwella'r strwythurau a'r prosesau sy'n ymwneud â'r rhai sy'n gofalu am blant a phobl ifanc a'u cefnogi.

Efallai y bydd effaith gymedrol hefyd ar bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n gweithio fel gweithwyr gofal cymdeithasol o fewn gwasanaethau oedolion, neu sydd ar leoliadau neu gynlluniau prentisiaeth gan y byddant yn ddarostyngedig i'r prosesau hyn fel rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach.

O ran atebolrwydd, byddai angen i GCC gymryd anghenion penodol y person ifanc i ystyriaeth os bydd yn destun cwyn.

## 2. Esboniwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Gallai erthyglau 3 a 6 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (lles pennaf y plentyn a'r hawl i fyw, goroesi a datblygu) fod yn berthnasol i'r cynnig hwn. Mae hyn oherwydd y cysylltiadau â phrosesau atebolrwydd, drwy addasrwydd i ymarfer, a chan mai un o fanteision y cynnig yw dull mwy cyson o ddysgu a datblygu, a fydd yn helpu i gefnogi pobl ifanc sy'n gweithio yn y sector i ddatblygu eu gyrfa. Bydd yn ofynnol i GCC ystyried lles pennaf y plentyn drwy ei reolaeth ar gofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

O ran plant a phobl ifanc, mae ein hasesiad yn awgrymu y bydd effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar y grŵp hwn.